

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>Pwyllgor Safonau</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>15 Rhagfyr 2020</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau gan y Cadeirydd</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>I ddarparu copi o'r Adroddiad Blynyddol i aelodau a gwybodaeth ar y gwaith i'w gyflawni ar gyfer 2020/21.</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol <a href="mailto:mwycs@anglesey.gov.uk">mwycs@anglesey.gov.uk</a></b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro <a href="mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk">lbxcs@ynysmon.gov.uk</a> 01248 752586</b>

## **A CEFNDIR**

- 1 Mae gofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ddarparu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor. Dyma adroddiad cyntaf Mr John Robert Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor.
- 2 Mae'n arferol i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor sydd fel arfer yn digwydd ym mis Mai. Fodd bynnag, roedd oedi wrth gynnal Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2020 o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.
- 3 Cafodd Adroddiad 2020/2021 y Pwyllgor Safonau felly ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Medi 2020.
- 4 Mae copi o'r Adroddiad i'w weld drwy ddilyn y [ddolen hon](#).
- 5 Mae'r Adroddiad yn nodi'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i gyflawni yn ystod 2019/2020 ac mae'n cynnwys y rhaglen waith ar gyfer 2020/2021.
- 6 Mae rhaglen waith y pwyllgor ar gyfer 2020/2021 wedi'i leihau o ganlyniad i gael ei gadarnhau gydag amserlen fyrrach (mae'n 12 mis fel arfer ond wedi ei leihau i 8 mis eleni). Mae'r pandemig parhaus hefyd yn chwarae ei ran gan

fod pwysau ychwanegol ar adnoddau, yn cynnwys amser y Swyddogion sy'n cynorthwyo â rhaglen y Pwyllgor.

**B ARGYMHELLIAD**

- 1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.